**PRIFFYRDD, CYMRU**

**2014 RHIF 32**

**DEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF 1990**

# GORCHYMYN CAU PRIFFYRDD (UPPER BANK, BRUNEL WAY, ABERTAWE) 2014

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *11 Rhagfyr 2014* |
| *Yn dod i rym* | *18 Rhagfyr 2014* |

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn hwn drwy arfer eu pwerau o dan adran 247 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990**(1)**.

## Enwi, Dehongli a Chychwyn

**1.** (1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cau Priffyrdd (Upper Bank, Brunel Way, Abertawe) 2014.

(2) Yn y Gorchymyn hwn:-

ystyr "y Cyngor" ("*the Council*") yw Cyngor Sir Dinas a Sir Abertawe;

ystyr "y datblygwr" ("*the developer*") yw'r person sy'n gwneud y datblygiad y mae'r caniatâd cynllunio wedi ei roi ar ei gyfer;

ystyr "Deddf 1990" ("*the 1990 Act*") yw Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990; ac

ystyr "y plan a adneuwyd" ("*the deposited plan*") yw'r plan sy'n dwyn yr enw "Gorchymyn Cau Priffyrdd (Upper Bank, Brunel Way, Abertawe) 2014" sy'n dod gyda'r Gorchymyn hwn.

(3) Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar y dyddiad y cyhoeddir yr hysbysiad ei fod wedi ei wneud yn unol ag adran 252(10) o Ddeddf 1990.

## Cau Priffordd

**2.** Yn ddarostyngedig i erthyglau 3, 4, 5 a 6, mae Gweinidogion Cymru yn awdurdodi cau'r rhannau o briffordd a ddisgrifir yn Atodlen 1 ac a ddangosir â llinellau sebra ar y plan a adneuwyd. Mae Gweinidogion Cymru wedi eu bodloni bod angen cau'r briffordd er mwyn galluogi'r datblygiad i gael ei wneud yn unol â'r caniatâd cynllunio a roddwyd o dan Ran III o Ddeddf 1990 gan y Cyngor ar 6 Gorffennaf 2012 o dan y cyfeirnod 2006/1902, ac ar 7 Mawrth

2014 o dan y cyfeirnod 2014/0013, ac a ddisgrifir yn Atodlen 4 i'r Gorchymyn hwn.

**Priffyrdd Newydd / y Gwneir Gwelliannau iddynt**

**3.** Rhaid creu, er boddhad rhesymol y Cyngor, y rhannau newydd o'r briffordd a ddisgrifir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn ac a ddangosir â dotwaith ar y plan a adneuwyd, a'r rhannau o'r briffordd y gwneir gwelliannau iddynt a ddisgrifir yn Atodlen 3 i'r Gorchymyn hwn ac a ddangosir â chroeslinellau ar y plan a adneuwyd, a bydd y priffyrdd hyn, at ddibenion Deddf Priffyrdd 1980(2), yn briffyrdd i'w cynnal ar draul y pwrs cyhoeddus. Y Cyngor fydd yr awdurdod priffyrdd ar eu cyfer.

**Y Darpariaethau sy'n Angenrheidiol neu'n Hwylus cyn Cau Priffyrdd ac ar gyfer Darparu neu Wella Priffyrdd**

**4.** Ni chaniateir cau'r rhannau o briffordd yn Atodlen 1:-

(a) hyd nes y bydd y datblygwr wedi darparu, er boddhad rhesymol y Cyngor, blaniau sy'n dangos sut y mae'r rhannau o'r briffordd i'w cau;

(b) hyd nes y bydd y datblygwr wedi darparu'r priffyrdd newydd a gwell a ddisgrifir yn Atodlenni 2 a 3 i'r Gorchymyn hwn er boddhad rhesymol y Cyngor;

(c) hyd nes y bydd y datblygiad yn Atodlen 4 wedi ei ddechrau a bod y datblygwr wedi hysbysu'r Cyngor yn ysgrifenedig ei bod yn angenrheidiol cau'r priffyrdd i alluogi'r datblygiad i fynd rhagddo; a

(d) hyd nes y bydd y Cyngor wedi ysgrifennu at y datblygwr i gadarnhau bod paragraffau (a), (b) ac (c) wedi eu bodloni.

**Ymgymerwyr Statudol a Darparwyr**

**5.** Pan fo gan ymgymerwyr statudol neu ddarparwyr system gyfathrebu gyhoeddus unrhyw gyfarpar o dan y briffordd, ynddi, arni, drosti, ar ei hyd neu ar ei thraws yn union cyn cau'r rhan o briffordd yna (yn ddarostyngedig i adran 261(4) o Ddeddf 1990), bydd gan yr ymgymerwyr neu'r darparwyr yr un hawliau mewn cysylltiad â'r cyfarpar ag a oedd ganddynt cyn cau'r briffordd.

**Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn**

**6.** Os na fydd y datblygiad yn Atodlen 4 wedi ei ddechrau yn y cyfnod perthnasol a bennir yn Rhan III o Ddeddf 1990 fel cyfnod para'r caniatâd cynllunio, neu os caiff y caniatâd ei ddirymu cyn diwedd y

cyfnod hwnnw, bydd y Gorchymyn hwn yn peidio â chael effaith.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 11 Rhagfyr 2014

**RICHARD MORGAN**
Pennaeth Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

**(1)** 1990 p. 8. Yn rhinwedd erthygl 2 o O.S. 1999/672, ac Atodlen 1 iddo, trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol, i'r graddau yr oeddent yn arferadwy o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac maent yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 a pharagraff 30(2) o Atodlen 11 iddi.
**(2)** 1980 p. 66

## YR ATODLENNI

### (Bras amcan yw pob mesuriad)

### ATODLEN 1

**Disgrifiad o'r rhannau o briffordd sydd i'w cau o dan y Gorchymyn hwn**

Rhan sy'n betryal ei siâp o briffordd at bob diben sy'n mesur cyfanswm o 243.37 metr sgwâr i'r de-ddwyrain o'r briffordd a elwir Nantong Way, Pentre-chwyth, Abertawe ac y rhoddwyd cyfeirnod A iddi ar y plan a adneuwyd.

Rhan sy'n betryal ei siâp o briffordd at bob diben sy'n mesur cyfanswm o 618.35 metr sgwâr i'r de-ddwyrain o'r briffordd a elwir Nantong Way, Pentre-chwyth, Abertawe ac y rhoddwyd cyfeirnod B iddi ar y plan a adneuwyd.

### ATODLEN 2

**Disgrifiad o'r rhannau o briffordd newydd sydd i'w darparu**

Rhan afreolaidd ei siâp o ffordd fynediad newydd sy'n mesur cyfanswm o 348.37 metr sgwâr i'r de-ddwyrain o'r gylchfan sy'n cysylltu'r priffyrdd a elwir Nantong Way a Brunel Way, Pentre-chwyth, Abertawe ac y rhoddwyd cyfeirnod C iddi ar y plan a adneuwyd.

Rhan afreolaidd ei siâp o ffordd fynediad newydd sy'n mesur cyfanswm o 475.29 metr sgwâr i'r de-ddwyrain

o’r briffordd a elwir Nantong Way, Pentre-chwyth, Abertawe ac y rhoddwyd cyfeirnod D iddi ar y plan a adneuwyd.

Rhan afreolaidd ei siâp o ffordd fynediad newydd sy’n mesur cyfanswm o 1002.62 metr sgwâr i’r gogledd o’r briffordd a elwir yr A4217, Pentre-chwyth, Abertawe ac y rhoddwyd cyfeirnod E iddi ar y plan a adneuwyd.

## ATODLEN 3

### Disgrifiad o’r rhannau o briffordd sydd i’w gwella o dan y Gorchymyn hwn

Rhan afreolaidd ei siâp o ffordd fynediad sy’n mesur cyfanswm o 253.93 metr sgwâr i’r dwyrain o’r briffordd a elwir Brunel Way, Pentre-chwyth, Abertawe ac y rhoddwyd cyfeirnod F iddi ar y plan a adneuwyd.

Rhan afreolaidd ei siâp o ffordd fynediad sy’n mesur cyfanswm o 46.68 metr sgwâr i’r de-ddwyrain o’r briffordd a elwir Nantong Way, Pentre-chwyth, Abertawe ac y rhoddwyd cyfeirnod G iddi ar y plan a adneuwyd.

## ATODLEN 4

### Y Datblygiad

Adeiladu 42 o unedau preswyl ar dir yn Upper Bank, Pentre-chwyth, Abertawe.

**DEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF 1990**

**GORCHYMYN CAU PRIFFYRDD (UPPER BANK, BRUNEL WAY, ABERTAWE) 2014**

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 247 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 ("y Ddeddf") i awdurdodi cau'r rhannau o briffordd a ddisgrifir yn Atodlen 1 i'r Hysbysiad hwn, i ddarparu ar gyfer y rhannau newydd o briffordd fel y'u disgrifir yn Atodlen 2 i'r Hysbysiad hwn ac i wella'r rhannau o briffordd fel y'u disgrifir yn Atodlen 3 i'r Hysbysiad hwn er mwyn galluogi'r datblygiad a ddisgrifir yn Atodlen 4 i gael ei wneud. Bydd y Gorchymyn Cau Priffyrdd (Upper Bank, Brunel Way, Abertawe) 2014 ("y Gorchymyn"), yn peidio â bod yn effeithiol os daw'r caniatâd cynllunio ar gyfer y datblygiad i ben neu os caiff ei ddirymu.

Gellir edrych ar gopïau o'r Gorchymyn a'r plan a adneuwyd yn rhad ac am ddim yn ystod oriau swyddfa arferol yn swyddfeydd Dinas a Sir Abertawe, Parc Penlle'r-gaer, Penlle'r-gaer, Abertawe SA4 9GJ neu gellir eu cael yn rhad ac am ddim o'r cyfeiriad isod gan ddyfynnu'r cyfeirnod qA1173897.

Caiff unrhyw berson a dramgwyddir gan y Gorchymyn, ar y sail:

a. nad yw o fewn pwerau'r Ddeddf; neu

b. na chydymffurfiwyd ag un o ofynion gweithdrefnol y Ddeddf;

o fewn 6 wythnos i 18 Rhagfyr 2014, wneud cais i'r Uchel Lys at y diben hwnnw.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar www.cymru.gov.uk (Detholer: Deddfwriaeth/ Is-ddeddfwriaeth/ Offerynnau Anstatudol/ Trafnidiaeth/Deddf Cynllunio Gwlad a Thref: Gorchmynion Cau/2014).

**Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.**

**M D BURNELL**
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

## YR ATODLENNI

## ATODLEN 1

**(Bras amcan yw pob mesuriad)**

**Disgrifiad o’r rhannau o briffordd sydd i’w cau o dan y Gorchymyn hwn**

Rhan sy’n betryal ei siâp o briffordd at bob diben sy’n mesur cyfanswm o 243.37 metr sgwâr i’r de-ddwyrain o’r briffordd a elwir Nantong Way, Pentre-chwyth, Abertawe ac y rhoddwyd cyfeirnod A iddi ar y plan a adneuwyd.

Rhan sy’n betryal ei siâp o briffordd at bob diben sy’n mesur cyfanswm o 618.35 metr sgwâr i’r de-ddwyrain o’r briffordd a elwir Nantong Way, Pentre-chwyth, Abertawe ac y rhoddwyd cyfeirnod B iddi ar y plan a adneuwyd.

## ATODLEN 2

**Disgrifiad o’r rhannau o briffordd newydd sydd i’w darparu**

Rhan afreolaidd ei siâp o ffordd fynediad newydd sy’n mesur cyfanswm o 348.37 metr sgwâr i’r de-ddwyrain o’r gylchfan sy’n cysylltu’r priffyrdd a elwir Nantong Way a Brunel Way, Pentre-chwyth, Abertawe ac y rhoddwyd cyfeirnod C iddi ar y plan a adneuwyd.

Rhan afreolaidd ei siâp o ffordd fynediad newydd sy’n mesur cyfanswm o 475.29 metr sgwâr i’r de-ddwyrain o’r briffordd a elwir Nantong Way, Pentre-chwyth, Abertawe ac y rhoddwyd cyfeirnod D iddi ar y plan a adneuwyd.

Rhan afreolaidd ei siâp o ffordd fynediad newydd sy’n mesur cyfanswm o 1002.62 metr sgwâr i’r gogledd o’r briffordd a elwir yr A4217, Pentre-chwyth, Abertawe ac y rhoddwyd cyfeirnod E iddi ar y plan a adneuwyd.

## ATODLEN 3

**Disgrifiad o’r rhannau o briffordd sydd i’w gwella o dan y Gorchymyn hwn**

Rhan afreolaidd ei siâp o ffordd fynediad sy’n mesur cyfanswm o 253.93 metr sgwâr i’r dwyrain o’r briffordd a elwir Brunel Way, Pentre-chwyth, Abertawe ac y rhoddwyd cyfeirnod F iddi ar y plan a adneuwyd.

Rhan afreolaidd ei siâp o ffordd fynediad sy’n mesur cyfanswm o 46.68 metr sgwâr i’r de-ddwyrain o’r briffordd a elwir Nantong Way, Pentre-chwyth,

Abertawe ac y rhoddwyd cyfeirnod G iddi ar y plan a adneuwyd.

**ATODLEN 4**

**Y Datblygiad**

Adeiladu 42 o unedau preswyl ar dir yn Upper Bank, Pentre-chwyth, Abertawe yn unol â’r caniatâd cynllunio a roddwyd o dan Ran III o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 gan Gyngor Sir Dinas a Sir Abertawe ar 6 Gorffennaf 2012 o dan y cyfeirnod 2006/1902 ac ar 7 Mawrth 2014 o dan y cyfeirnod 2014/0013.